




# **Strategaeth ymchwil canser Cymru, CReSt: Dathlu ein cynnydd ar y cyd**



Mawrth 2026

## Moving Forward: A Cancer Research Strategy for Wales

July 2022



Mae strategaeth ymchwil canser Cymru (CReSt) wedi gosod cyfrifoldeb ar y cyd dros wneud cynnydd mewn ymchwil canser yng Nghymru.

Mae ein cymuned ymchwil yn cynnwys unigolion, timau, grwpiau a sefydliadau bywiog, sy'n datblygu drwy'r amser. Mae'r adroddiad hwn yn dathlu rhai o'r uchafbwyntiau ers lansio CReSt yn 2022.

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg, dim ond i chi ddilyn y ddolen: <https://walescancerresearchcentre.org/crest/>

### Ynglŷn â CReSt

Tudalen 4

Dysgu am strategaeth ymchwil canser unedig gyntaf Cymru a sut mae'r broses o'i chyflawni yn cael ei chefnogi

### Amgylchedd ymchwil canser Cymru yn 2025

Tudalen 6

Gweld sut mae sefydliadau a grwpiau wedi ymateb i'r her o gynyddu gweithgareddau ymchwil canser

### Uchafbwyntiau allweddol ymchwil Cymru 2022-25

Tudalen 12

Darllen am rywfaint o weithgareddau ymchwil nodedig Cymru ers 2022, fel dyfarniadau mawr ac astudiaethau clinigol

### Themâu ymchwil ledled Cymru yn 2025

Tudalen 29

Gweld cipolwg o'r themâu ymchwil mewn gwahanol leoliadau ar draws Cymru

**Thema 1:**  
Oncoleg fecanistig a  
manwl



**Thema 2:**  
Imiwno-oncoleg



**Thema 3:**  
Radiotherapi



**Thema 4:**  
Treiaton clinigol  
cancer



**Thema 5:**  
Oncoleg gefnogol  
a lliniarol



**Thema 6:**  
Ymchwil atal, canfod cynnar,  
gofal sylfaenol a gwasanaethau  
iechyd



## Lansiwyd CReSt yn 2022, sef y strategaeth Canser gyntaf ar gyfer Cymru

Cyhoeddwyd **Strategaeth Ymchwil Canser Cymru (CReSt)** yn 2022. Dyma oedd y dull gweithredu cyntaf yng Nghymru gyfan o bennu cyfeiriad unedig ar gyfer ymchwil cancer.<sup>1</sup>

Fe'i lansiodd gan **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Rhwydwaith Canser Cymru** (y Tîm Canser Cenedlaethol bellach) a **Chanolfan Ymchwil Canser Cymru** gan ddilyn mewnbwn gan y gymuned ymchwil a'r panel arbenigol, a mae wedi cael ei gefnogi gan amryw o sefydliadau GIG Cymru a sefydliadau academiaidd.

Ei nod craidd yw **meithrin capasiti â ffocws** o amgylch **chwe thema** CReSt, sef meysydd cryfder ymchwil Cymru.

Trwy adeiladu cymuned ymchwil gydweithredol, effeithlon sy'n cael ei chefnogi'n dda, rydym yn cynyddu incwm grant ymchwil ac yn ehangu'r sylfaen ymchwil ac, yn y pen draw, yn gwella canlyniadau i gleifion â chanser.

## Argymhellion CReSt

- Sicrhau llawer o **gymorth strategol** a chyfrifoldeb ar y cyd
- Canolbwyntio ar **chwe thema** cryfder ymchwil
- **Arweinwyr ymchwil** i hyrwyddo pob thema, trwy Grŵp Arweinyddiaeth
- Nodi bylchau yn y **gweithlu ymchwil a llwybrau gyrfa**
- Archwilio cyfleoedd i **gyllido** ymchwil cancer yn y dyfodol
- Datblygu **seilwaith** ymchwil cancer newydd
- Archwilio buddsoddiadau a mentrau **masnachol** ar y cyd, gan gynnwys **deilliannau**

1. <https://walescancerresearchcentre.org/crest/> (2022).

## Mae Canolfan Ymchwil Canser Cymru wedi cysoni ei rhaglen waith i gefnogi'r broses o gyflawni CReSt



Sefydlwyd **Canolfan Ymchwil Canser Cymru (WCRC)** yn 2015. Mae'n gweithio ar draws sectorau a sefydliadau yng Nghymru, ac yn cael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a chefnogaeth sefydliadol gan Brifysgol Caerdydd.

Ar ôl cyhoeddi CReSt, fe wnaethom ailgyfeirio ein cyllid ar gyfer 2023–25 i **gefnogi a chydlynu'r broses o gyflawni CReSt**, ac yn 2025–30, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar eitemau lefel uchel y strategaeth, yn cynnwys:

- rhedeg **Grŵp Arweinyddiaeth CReSt** a Grŵp Llywio WCRC/CReSt, i gydlynu cynnydd ar draws chwe thema CReSt
- cysoni ein **swyddi ymchwil sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol** i gefnogi talent sy'n dod i'r amlwg mewn themâu CReSt, a sicrhau cyd-ariannu cyflogau
- cymryd **rôl arwain mewn mentrau cenedlaethol** fel Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd, sy'n seilwaith newydd mawr i Gymru
- cyflwyno rhaglen o **weithgareddau ymchwil ledled y gymuned**, gan gynnwys gweithdai, grwpiau ymchwil, a chynhadledd flynyddol
- cefnogi **llwybrau gyrfa** drwy rwydwaith ymchwilwyr ar ddechrau ac ar ganol eu gyrfa ar gyfer ymchwilwyr cancer yng Nghymru, gan gynnig cymorth gan gymheiriaid, hyfforddiant a chyfleoedd mentora
- cefnogi **ceisiadau am gyllid ar y cyd** o fewn a thu hwnt i Gymru i gynyddu nifer a graddfa ein hymchwil cancer.

## Mae cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ysgogi gweithgarwch CReSt



Mae dyfarniad gweithredu gwerth £1m gan **CReSt Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** i'r WCRC wedi cyflymu gweithgareddau sy'n galluogi ymchwil mewn meysydd sy'n croesi themâu CReSt, yn y ffyrdd canlynol:

- **cynyddu capasiti biowybodeg** trwy gynnig cymorth a hyfforddiant dadansoddol, a chyflwyno Rhwydwaith Biowybodeg Canser Cymru
- **dechrau 'datgloi' setiau data cancer** at ddefnydd ymchwil, gyda banc data SAIL i gynhyrchu adroddiadau Data Explained<sup>1</sup> i helpu ymchwilwyr cancer i lywio adnoddau cancer, a chynnal digwyddiad arddangos data cancer
- **cefnogi gweithwyr ar ddechrau eu gyrfa** i weithio gyda goruchwylwyr talentog ar ganol eu gyrfa i ehangu eu gwaith ac adeiladu tuag at fwy o gyllid ymchwil
- **datblygu talent ymchwil glinigol**, trwy sesiynau ymchwil academiaidd ar gyfer clinigwyr sy'n gweithio ar dreialon cancer a/neu ymchwil drosi yng Nghymru
- **cefnogi llif o ymchwilwyr academiaidd** trwy gynnig Dyfarniadau Dechrau Gyrfa anghlinigol ar gyfer ymchwilwyr cancer talentog yng Nghymru i ddilyn eu PhD
- **darparu cronfeydd datblygu cysyniadau** ar gyfer gwaith pilot neu hyfforddiant, i gefnogi ymchwilwyr ar ddechrau ac ar ganol eu gyrfa i ddechrau ennill eu cyllid eu hunain a datblygu eu CVs ymchwil.

1. <https://saildatabank.com/new-data-explained-reports-provide-insights-into-cancer-related-data-sources/>

## Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu ei hymrwymiad i ganser

- Sefydlwyd y **fenter 'Mynd i'r afael â Chanser'** gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2024 fel rhan o ddull gweithredu uchelgeisiol, cydweithredol o wella canlyniadau canser i bobl Cymru. Fel rhan o hyn, mae'r rhaglen **Mynd i'r Afael â Chanser trwy Ymchwil**<sup>1</sup> yn cefnogi cyflymu **cymryd rhan mewn treialon clinigol canser o ansawdd uchel**, gyda ffocws ar astudiaethau masnachol i ariannu cyfleoedd ehangach i gleifion ledled Cymru gael mynediad at dreialon clinigol.
- Mae'r **Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser** yn y Senedd yn dwyn ynghyd Aelodau o'r Senedd, gweithwyr meddygol proffesiynol, elusennau, ac unigolion y mae canser yn effeithio arnynt. Mae'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd a derbyniadau yn y Senedd, a chynhaliodd ymgynghoriad ar anghydraddoldebau a chanser, a arweiniodd at adroddiad 2023, **All Things Being Equal**.<sup>2</sup>



## Lansio strategaethau a chynlluniau cyflawni newydd ar gyfer Cymru gyfan

- Lansiodd y **Tim Canser Cenedlaethol**, Perfformiad a Gwella GIG Cymru **gynllun gwella tair blynedd** ar gyfer gwasanaethau canser y GIG ar gyfer 2023–26, sy'n cynnwys camau gweithredu system gyfan i gefnogi pobl i fanteisio ar dreialon ac ymchwil.<sup>1</sup>
- Roedd **Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru 2022–25**<sup>2</sup> yn cynnwys ymrwymiad i gynnig hyd at 5,000 o broffiliau profion genomig helaeth i gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser bob blwyddyn, a lansiodd Partneriaeth Genomeg Cymru ac Ymchwil lechyd a Gofal Cymru **cynllun ymchwil strategol genomeg** ym mis Ionawr 2026.<sup>3</sup>
- Roedd **lechyd Cyhoeddus Cymru** wedi rhyddhau **strategaeth ymchwil a gwerthuso 2023–26**<sup>4</sup> i ategu ei **strategaeth hirdymor 2023–2035**,<sup>5</sup> sy'n cynnwys blaenoriaethau ynghylch lleihau cyffredinolrwydd ysmegu, hyrwyddo ymddygiadau iechyd, cyflwyno brechiadau feirws papiloma dynol (HPV) a gwasanaethau sgrinio canser.
- Roedd **Therapiau Datblygedig Cymru** wedi rhyddhau **cynllun cyflawni**<sup>6</sup> Cymru gyfan ar gyfer 2025–2029 i osod dull ar y cyd o ddatblygu therapïau newydd arloesol.

1. <https://performanceandimprovement.nhs.wales/functions/networks-and-planning/cancer/cancer-improvement-plan-docs/full-plan/> (2023).

2. <https://www.gov.wales/genomics-delivery-plan-2022-2025> (2022).

3. [https://genomicspartnership.wales/wp-content/uploads/2026/01/Strategic-Research-Plan\\_Genomics-in-Wales.pdf](https://genomicspartnership.wales/wp-content/uploads/2026/01/Strategic-Research-Plan_Genomics-in-Wales.pdf)

4. <https://phw.nhs.wales/about-us/working-together-for-a-healthier-wales/public-health-wales-research-and-evaluation-strategy-2023-2026/>

5. <https://phw.nhs.wales/about-us/working-together-for-a-healthier-wales/phw-long-term-strategy-pdf/>

6. <https://advancedtherapieswales.co.uk/about-us/delivery-plan/>

1. <https://healthandcareresearchwales.org/about-research-taking-place-wales/tackling-cancer-through-research-programme>

2. [https://www.cancerresearchuk.org/sites/default/files/all\\_things\\_being\\_equal\\_-\\_full\\_report\\_-\\_final.pdf](https://www.cancerresearchuk.org/sites/default/files/all_things_being_equal_-_full_report_-_final.pdf)

## Sefydliadau yn uno i ffurfio Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd

Lansiwyd **Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd** (CCRP)<sup>1</sup> ym mis Medi 2025. Mae'n flaenoriaeth thematig allweddol i Bartneriaid Iechyd Caerdydd, partneriaeth iechyd academiaidd strategol rhwng Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Mae CCRP yn canolbwyntio ar ofal canser y genhedlaeth nesaf, ac yn cynnig **un pwynt mynediad at arbenigedd a chyfleusterau ymchwil canser yng Nghaerdydd**, sy'n cwmpasu canserau haematolegol a solet, a darganfod hyd at ymchwil glinigol. Mae'r tîm ymchwil glinigol yn galluogi cyflwyno ystod o dreialon clinigol, o dreialon clinigol cyfnod cynnar i dreialon clinigol cyfnod hwyr cymhleth, gan gynnwys treialon therapïau datblygedig (celloedd, meinwe a genynnau) sy'n gofyn am weithio ar draws safleoedd. Mae gan gleifion o bob rhan o dde Cymru, a thu hwnt, fynediad at dreialon CCRP.

Yn hollbwysig, mae'r CCRP hefyd yn canolbwyntio ar **gysoni a datblygu ymchwil canser academiaidd** ar draws Prifysgol Caerdydd, gan gysylltu ymchwilwyr academiaidd a chlinigol drwy'r grŵp Ymchwil Darganfod ac Ymchwil Drosi, i hyrwyddo datblygu grantiau ar y cyd a chyflymu darganfyddiadau i'r clinig er budd cleifion.



## Mae diwydiant yn rhan hanfodol o ecosystem ymchwil Cymru

- Mae'r **cynllun gwirfoddol ar gyfer prisio, mynediad a thwf meddyginiaethau wedi'u brandio (VPAG)** yn dod â **£22m dros 5 mlynedd** i Gymru, fel rhan o gynllun Llywodraeth y DU a Chymdeithas y Diwydiannau Fferyllol 2024.<sup>1</sup> Bydd hyn yn cryfhau seilwaith ymchwil y GIG i ddarparu mwy o ymchwil fasnachol, gan gynnwys treialon canser.
- Mae partneriaethau strategol rhwng **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** a **nifer o gwmnïau fferyllol** yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno treialon clinigol yng Nghymru, gan gynnwys cynyddu mynediad ar draws ffiniau byrddau iechyd.<sup>2</sup>
- Mae **Fforwm Diwydiant Canser Cymru**,<sup>3</sup> o dan arweiniad y Tîm Canser Cenedlaethol a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, yn parhau i gefnogi gweithio cydweithredol â nifer o sectorau, gyda chynrychiolaeth o'r diwydiannau fferyllol a biotechnoleg, addysg uwch, y GIG a'r llywodraeth.

1. <https://healthandcareresearchwales.org/about/news/unlocking-wales-potential-what-investment-programme-means-commercial-research-delivery>

2. <https://healthandcareresearchwales.org/support-and-guidance/for-partners-and-industry>

3. <https://performanceandimprovement.nhs.wales/functions/networks-and-planning/cancer/workstreams/research-and-innovation/wales-cancer-industry-forum/>

## Prifysgolion Cymru yn parhau i ymrwymo i ymchwil cancer

- Mae **Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe** i gyd yn cefnogi swyddi ymchwil sy'n cael eu hariannu ar y cyd â Chanolfan Ymchwil Cancer Cymru ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2025 a 2030, gan ddangos eu hymrwymiad i feithrin gallu mewn meysydd cryfder academiaidd CReSt.
- Mae **Prifysgol Caerdydd** wedi lansio **strategaeth cancer 2025-30**,<sup>1</sup> yn nodi ei hymrwymiad i gysylltu ymchwil cancer ar draws Prifysgol Caerdydd a phartneriaid allweddol y GIG. Mae hyn yn cynnwys anelu at hyfforddi arweinwyr a thimau'r dyfodol, sicrhau cynrychiolaeth gyfartal, cyflymu prosesau darganfod ac arloesi, a defnyddio data cancer gan bob claf.
- Ffurfiwyd **Ysgol Feddygaeth newydd Gogledd Cymru** ym **Mhrifysgol Bangor** yn swyddogol ym mis Medi 2023. Mae'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru, a'r nod yw datblygu gofal iechyd a chymdeithasol ar gyfer y dyfodol sy'n gynaliadwy, yn seiliedig ar leoedd, ac sy'n cryfhau twf y sector gwyddorau bywyd rhanbarthol.



## Bydd buddsoddiadau'r GIG yn galluogi mwy o ymchwil arloesol

Mae'r **Tîm Cancer Cenedlaethol**<sup>1</sup> o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn dod â gweithwyr iechyd proffesiynol at ei gilydd yn ei ffrwd waith Ymchwil ac Arloesi.

Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** i gyd yn cyd-ariannu swyddi ymchwil gyda Chanolfan Ymchwil Cancer Cymru yn ystod 2025-2030, gan gadarnhau eu hymrwymiad i ymchwil sy'n cyd-fynd â chryfderau Cymru ym maes CReSt.

Mae buddsoddiadau mewn gwasanaethau cancer y GIG a fydd yn cynyddu'r capasiti ar gyfer gofal clinigol ac ymchwil yn cynnwys:

- **Canolfan Ganser Felindre newydd**,<sup>2</sup> wedi'i hariannu drwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol gyda chymorth Llywodraeth Cymru
- **Uned Radiotherapi newydd**, gwerth £38 miliwn yn **Nevill Hall**, Felindre<sup>3</sup>
- cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer **pedwar sganwr PET-CT statig**<sup>4</sup> o fewn y 10 mlynedd nesaf yn y canolfannau cancer yn Abertawe, Felindre, Gogledd Cymru a phedwerydd safle i'w benderfynu
- agor **Canolfan Iechyd Genomig Cymru** yng Ngogledd Caerdydd yn 2023<sup>5</sup>
- **uned ddydd newydd ar gyfer cemotherapi, gwerth £3m** yn Aberystwyth.<sup>6</sup>

1. <https://performanceandimprovement.nhs.wales/functions/networks-and-planning/cancer/>

2. <https://velindre.nhs.wales/new-velindre-cancer-centre/news/tcs-news/agreement-reached-to-build-new-velindre-cancer-centre/>

3. <https://velindre.nhs.wales/velindrecs/radiotherapy-unit-at-nevill-hall-hospital/>

4. <https://sbuhb.nhs.wales/news/swansea-bay-health-news/work-starts-on-14-million-singleton-hospital-development-that-will-transform-cancer-diagnoses/>

5. <https://cavuhb.nhs.wales/news/latest-news/cigc-opening/>

6. <https://hduhb.nhs.wales/news/press-releases/work-to-begin-on-3million-cancer-day-unit-at-bronglais-hospital/>

1. [https://ccrp.org.uk/wp-content/uploads/2025/09/Cardiff-University-Cancer-Strategy-2025-2030\\_updated-ENGLISH1-1.pdf](https://ccrp.org.uk/wp-content/uploads/2025/09/Cardiff-University-Cancer-Strategy-2025-2030_updated-ENGLISH1-1.pdf)

## Sefydliadau trydydd sector Cymru yn darparu cyllid a chyfleoedd datblygu ymchwil canser newydd


- Lansiodd **Ymchwil Canser Cymru Fenter Ymchwil Tiwmorau'r Ymennydd** ym mis Ebrill 2024, gyda chronfa o oddeutu £1m y flwyddyn ar gael ar gyfer ymchwil, gan ymateb yn uniongyrchol i gryfderau yng Nghymru.<sup>1</sup>
- Ym mis Gorffennaf 2023, diolch i gyllid cyfatebol gan **Sefydliad Moondance** a **Chronfeydd Elusennol Felindre** sefydlwyd **Academi Hyrwyddo Radiotherapi (ARC) Cymru**,<sup>2</sup> gyda £3m i fuddsoddi mewn arloesi ym maes radiotherapi, ymchwil a hyfforddiant.
- Mae **CADARN** (Gweithredu Cydweithredol ar gyfer Hybu a Chyflymu Ymchwil yn Genedlaethol)<sup>3</sup> yn ymyrraeth ar lefel system a lansiwyd gan **Fenter Canser Moondance** yn 2025 i gytuno ar flaenoriaethau a rennir, ysgogi cyflawni a chynhyrchu syniadau newydd, gan sicrhau bod cleifion ledled Cymru yn elwa o ymchwil yn fwy teg.
- Mae **Cynghrair Canser Cymru**,<sup>4</sup> sef clymblaid o elusennau sy'n gweithio gyda'i gilydd i atal canser, gwella gofal, ariannu ymchwil a dylanwadu ar bolisi yng Nghymru, yn cryfhau'r cydweithio rhwng sefydliadau.

1. <https://www.cancerresearch.wales/batri>

2. <https://velindre.nhs.wales/about-us/innovation/programmes/arc-academy/>

3. <https://moondance-cancer.wales/research-insights/cadarn>

4. <https://walescanceralliance.org/>



## Llais y cleifion yn siapio ymchwil canser Cymru

- Mae sicrhau bod **cleifion a'r cyhoedd yn cymryd rhan** wedi'i ymgorffori yng ngwaith grwpiau ledled Cymru, gan gynnwys Canolfan Ymchwil Canser Cymru, Banc Bio Canser Cymru, Canolfan Meddygaeth Canser Arbrofol Caerdydd a'r Ganolfan Treialon Ymchwil.
- Lansiodd **Tenovus Gymuned Canser Cymru Gyfan** yn 2022 er mwyn i gleifion rannu eu profiadau, er enghraifft trwy gael mynediad at ymgynghoriadau a chyfleoedd eraill i leisio eu barn.
- Roedd trydydd **arolwg profiad cleifion canser** a gynhaliwyd o dan arweiniad Macmillan a Rhwydwaith Canser Cymru wedi holi dros 6,000 o bobl a gafodd eu trin am ganser yng Nghymru yn 2020, a chyhoeddwyd y canlyniadau yn 2023.<sup>1</sup> Rhoddodd 92% o'r ymatebwyr sgôr o 7+ allan o 10 am eu gofal canser; ond dywedodd 80% nad oeddent wedi cael cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil canser, gan dynnu sylw at hyn fel maes i ganolbwyntio arno'n barhaus.

1. <https://performanceandimprovement.nhs.wales/functions/networks-and-planning/cancer/wcn-documents/patient-hub/cpes/cpes21/> (2023)

## Ariannu seilwaith ymchwil allweddol yn gystadleuol

- Cynhaliodd **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** broses ariannu gystadleuol gan ail-ariannu 12 o'i seilwaith presennol ar gyfer 2025–2030,<sup>1</sup> trwy **wobrau cynaliadwyedd**.
- Mae dau o'r rhain yn benodol i ganser: Mae **Canolfan Ymchwil Canser Cymru**<sup>2</sup> (£4.9m), sy'n cyflawni ymchwil canser ar y cyd; a **Banc Bio Canser Cymru**<sup>3</sup> (£2.4m), sy'n cyflawni gweithgareddau banc bio ar gyfer cleifion sy'n cydsynio, ac echdynnu data, i brosesu a churadu biosamplau. Mae'r ddau yn cael eu cynnal ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn gweithio ar draws Cymru.
- Mae gan drydydd un, sef **Canolfan Treialon Ymchwil**<sup>4</sup> yng Nghaerdydd (£4.7m), Is-adran Canser fel un o'i phedair thema, ac mae'n darparu arbenigedd i ddatblygu a chyflwyno treialon clinigol yng Nghymru a thu hwnt.
- Mae mathau eraill o seilwaith a ariennir, sy'n gweithio ar draws clefydau ac sy'n cyfrannu at waith ym maes canser yn cynnwys **Canolfan Ymchwil i Ofal Sylfaenol a Brys Cymru**<sup>5</sup> (PRIME, £3.0m) yng Nghaerdydd, y **Ganolfan Niwrotherapiau Datblygedig**<sup>6</sup> (£2.9m), **Banc Data SAIL**<sup>7</sup> ym Mhrifysgol Abertawe (£4.6 miliwn), ac **Economeg Iechyd a Gofal Cymru**<sup>8</sup> (£1.9m) ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor.



- Roedd **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** hefyd wedi galw am ganolfannau ymchwil newydd,<sup>1</sup> fel **dyfarniadau cyllid catalytig**. Ariannwyd pum canolfan newydd, gan gynnwys **Uned Firoleg Gymhwysol Cymru**<sup>9</sup> (£3m) sy'n cynnwys ymchwil sy'n ymwneud â brechlynnau gwell i frwydro yn erbyn canser, a llwyfannau feirysol wedi'u peiriannu ar gyfer oncoleg.
- Mae Ymchwil Canser y DU ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi adnewyddu cyllid **Canolfan Meddygaeth Canser Arbrolfoll Caerdydd** (ECMC, £2.5m) yn 2023, ac erbyn hyn mae yno ganolfannau ymchwil oedolion<sup>10</sup> a phediatri<sup>11</sup>, gyda chryfderau **ymchwil drosi a threialon cynnar** mewn tiwmorau solet a malaenedd haematolegol.
- Yn 2023, dyfarnodd Marie Curie bum mlynedd arall o gyllid (£3.2m) i **Ganolfan Ymchwil Marie Curie**<sup>12</sup> ym Mhrifysgol Caerdydd. Dyma'r unig ganolfan ymchwil lliniarol bwrrpasol yng Nghymru, ac mae'n siapio'r ffordd y mae pobl ar ddiwedd eu hoes yn derbyn gofal.
- Drwy Therapiau Datblygedig Cymru, mae Cymru'n cyd-arwain y **Canolfan Driniaeth Therapiau Datblygedig Canolbarth Lloegr-Cymru** (ATTC)<sup>13</sup> gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Birmingham, fel rhan o Gam 2 2023–28 y rhwydwaith ATTC, a ariennir gan **Innovate UK** ac a gydlynir trwy'r **Catapwl Therapi Celloedd a Genynnau**.<sup>14</sup>

1. <https://healthandcareresearchwales.org/about/news/major-investment-research-infrastructure> (2025).

2. <https://walescancerresearchcentre.org>

3. <https://walescancerbank.com/>

4. <https://www.cardiff.ac.uk/centre-for-trials-research>

5. <https://primecentrewales.yolasite.com/>

6. <https://brain.wales/>

7. <https://saildatabank.com/>

8. <https://www.bangor.ac.uk/hcec>

9. <https://www.cardiff.ac.uk/research/explore/research-units/wales-applied-virology-unit>

10. <https://www.ecmcnetwork.org.uk/centres/cardiff>

11. <https://www.ecmcnetwork.org.uk/centres/cardiff-paediatric-ecmc-0>

12. <https://www.mariecurie.org.uk/research-and-policy/research/where-we-do-research/marie-curie-palliative-care-research-centre-cardiff>

13. <https://www.theattcnetwork.co.uk/centres/midlands-wales>

14. <https://ct.catapult.org.uk/news/cell-and-gene-therapy-catapult-announces-successful-renewal-of-its-five-year-funding-from-innovate-uk-to-further-support-the-advanced-therapies-sector>

## Sefydliadau eraill sy'n weithredol ym maes ymchwil yn ychwanegu at alluoedd Cymru ym maes canser

- **Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru**<sup>1</sup> sy'n sbarduno'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu arloesedd gwyddorau bywyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Un o'r meysydd y mae'n canolbwyntio arno yw canfod, diagnosis a thrin canser yn gynnar.
- Mae **Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**<sup>2</sup> yn darparu adolygiadau cyflym ac yn dadansoddi data i lywio ymchwil canser a meysydd eraill yn y dyfodol.
- Dyfarnwyd **Canolfan Ragoriaeth De Cymru Tessa Jowell** yn 2024, ac mae'n uno gwaith Ysbyty Athrofaol Cymru, Canolfan Ganser Felindre a Chanolfan Ganser De-orllewin Cymru ym maes canser yr ymennydd.
- Mae rhaglen **Therapiau Datblygedig Cymru**<sup>3</sup> yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r portffolio Meddygaeth Fanwl, ac mae'n darparu cydlyniaeth a chefnogaeth ledled Cymru.
- Mae **Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan**<sup>4</sup> (gwasanaeth iechyd genomig cenedlaethol y GIG) a **Phartneriaeth Genomeg Cymru**<sup>5</sup> (cydweithrediad aml-bartner) yn cefnogi datblygiadau mewn geneteg a genomeg, gan gynnwys ar gyfer canser.
- **Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru** (WCISU) Iechyd Cyhoeddus Cymru<sup>6</sup> yw Cofrestrfa Genedlaethol Canser Cymru sy'n darparu gwaith ymchwil cydweithredol, gan gynnwys prosiectau a rhaglenni rhyngwladol gan ddefnyddio data cofrestrfa canser.

1. <https://lshubwales.com/we-are-life-sciences-hub-wales>


2. <https://researchwalesevidencecentre.co.uk/>

3. <https://advancedtherapieswales.co.uk>

4. <https://cavuhb.nhs.wales/our-services/all-wales-medical-genomics-service-awmgs/>

5. <https://genomicspartnership.wales/>

6. <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/welsh-cancer-intelligence-and-surveillance-unit-wcisu/>



## Mae cyfleoedd i feithrin cymunedau ymchwil canser wedi cynyddu

- Sefydlodd WCRC y **Rhwydwaith Ymchwilwyr Canser sydd ar Ddechrau neu ar Ganol eu Gyrfa ar gyfer Cymru**<sup>1</sup> yn 2024, a bellach mae'n garfan o ymchwilwyr clinigol ac anghlinigol sy'n tyfu. Mae'r grŵp ar gyfer Cymru gyfan ac mae'n darparu cymorth gan gymheiriaid, mentora a chyfleoedd dysgu.
- Lansiodd WCRC **Rwydwaith Biowybodeg Canser Cymru**<sup>2</sup> yn 2023, ac mae bellach wedi ehangu ei aelodaeth i arbenigeddau eraill, gyda dros 80 o aelodau o bob cwr o Gymru.
- Mae WCRC yn parhau i redeg **grwpiau ymchwil amlddisgyblaethol ym maes yr Ymennydd ac Wroleg**, lle mae ymchwilwyr yn gweithio gyda'i gilydd ar gynigion ymchwil.
- Mae Therapiau Datblygedig Cymru a Chanolfan Meddygaeth Canser Arbrofol Caerdydd yn rhedeg **grŵp ymchwil amlddisgyblaethol Therapiau Datblygedig**, sy'n cynnwys cangen canser fel un o dri maes ffocws.
- Mae **Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru**, a gynhelir yn flynyddol gan WCRC, yn dod ag oddeutu 350 o ymchwilwyr canser yng Nghymru at ei gilydd, gyda phosteri a chrynodebau llafar, gwobrau, sesiynau datblygu gyrfa, a siaradwyr gwadd.

1. <https://walescancerresearchcentre.org/emcr-network/>

2. <https://walescancerresearchcentre.org/wales-cancer-bioinformatics-network/>



Anaml y mae cynnydd mewn ymchwil yn ganlyniad i un ymdrech – mae'n deillio o sylfaen o ddarganfyddiadau blaenorol, ac ymdrech ar y cyd llawer o ymchwilwyr, timau a phrosiectau.

Mae'r adran nesaf yn tynnu sylw at rai o'r datblygiadau allweddol o dan arweiniad Cymru ers lansio CReSt yn 2022, sy'n amrywio o grantiau mawr a ddyfarnwyd i ddatblygu offer ymchwil a threialon clinigol; o ddeilliannau i lwyddiannau arwain.

Mae llawer mwy o brosiectau, dyfarniadau personol, a chyflawniadau ymchwil eraill yn ategu ac yn ehangu ar y gwaith hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefannau prifysgolion, Byrddau Iechyd, elusennau, canolfannau ymchwil a sefydliadau eraill.

**Thema 1:**  
Oncoleg fecanistig a manwl



**Thema 2:**  
Imiwno-oncoleg



**Thema 3:**  
Radiotherapi



**Thema 4:**  
Treialon clinigol cancer



**Thema 5:**  
Oncoleg gefnogol a lliniarol



**Thema 6:**  
Ymchwil atal, canfod cynnar, gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd



## Broken String Biosciences yn partneru â Sefydliad Francis Crick

Crëwyd **Broken String Biosciences**,<sup>1</sup> o dan arweiniad **yr Athro Simon Reed (Prifysgol Caerdydd)**, Dr Felix Dobbs a Dr Patrick van Eijk, yn 2020 fel partner golygu genynnau. Ei nod oedd lleihau nifer yr achosion o olygu genynnau yn anfwriadol drwy gyflwyno'r dechnoleg, INDUCE-seq<sup>®</sup> sy'n caniatáu i ymchwilwyr ddelweddu canlyniadau unrhyw system golygu genynnau y maent yn ei defnyddio. Enillodd y platfform, a ddatblygwyd yng Nghaerdydd, gydnabyddiaeth eang, gan ddenu buddsoddiad o \$15 miliwn yn ei rownd ariannu yn 2023.

Mae'r dechnoleg wedi cael ei defnyddio'n helaeth, gan arwain at **gydweithio â Sefydliad Francis Crick**, a ddechreuwyd yn 2024. Ffurfiwyd y bartneriaeth hon i gynhyrchu cymwysiaid newydd ar gyfer INDUCE-seq<sup>®</sup>, gan ehangu ei allu y tu hwnt i fapio toriadau DNA, gan geisio hwyluso ymchwiliadau i ansefydlogrwydd genomig.



1. <https://www.brokenstringbio.com>

## TeloNostiX yn ymestyn ei gyrhaeddiad byd-eang

Sefydlwyd **TeloNostiX**<sup>1</sup> yng Nghaerdydd yn 2017, gan **yr Athrawon Duncan Baird (Prifysgol Caerdydd)**, **Chris Fegan (Prifysgol Caerdydd)** a Chris Pepper (Ysgol Feddygol Brighton a Sussex).

Mae gwaith tîm TeloNostiX wedi dangos bod **telomerau (capiau ar bennau cromosomau) yn chwarae rhan hanfodol yn natblygiad a chynnydd cancer**, a gall hyd telomer bennu 'stamina' therapïau sy'n seiliedig ar gelloedd sy'n cael eu cyfeirio at gelloedd cancer. Felly, datblygwyd platfform diagnostig TeloNostiX i ganiatáu i glinigwyr werthuso DNA eu cleifion, gan gofnodi hyd eu telomerau, a helpu i wneud penderfyniadau clinigol gwybodus yn seiliedig ar y canfyddiadau.

Cafodd y cwmni **achrediad ISO17025 yn 2022**, ac mae wedi tyfu'n gyflym ers hynny.

Mae rhwydwaith o dros 165 o glinigwyr yn defnyddio gwasanaeth diagnostig TeloNostiX, nid yn unig ledled y DU, ond yn fyd-eang, gyda defnyddwyr yn Awstralia, Seland Newydd, a Chanada.



1. <https://www.telonostix.com/about-us>

## Grant UKRI yn cydnabod rhagoriaeth mewn ymchwil glioblastoma ym Mhrifysgol Caerdydd

Mae **Dr Florian Siebzehrubl**, sy'n uwch ddarlithydd yn Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd ac yn ddirprwy gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Bôn-gelloedd Canser Ewrop, a'i gydweithwyr wedi cael **grant gwerth £1.3 miliwn gan UKRI** (fel rhan o gyfanswm cronfa prosiect o £1.6 miliwn) i ymchwilio i gynhyrchu a rheoleiddio proteinau mewn celloedd glioblastoma.<sup>1</sup>

Mae'r cyllid yn rhedeg rhwng 2023 a 2027, a nod y gwaith yw canfod **mynegiant proteinau gwahaniaethol mewn celloedd glioblastoma ymosodol o'i gymharu â rhai llai ymosodol**. Y nod hirdymor yw bod yn sbardun ar gyfer gwaith ymchwil pellach i driniaethau glioblastoma newydd sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o gynhyrchu proteinau yn y celloedd hyn, a gesglir yn ystod y gwaith hwn.

Mae'r tîm hefyd yn anelu at ddilysu gwerth prognostig a diagnostig technoleg microsgopeg newydd, gyda'r nod o wella budd clinigol i gleifion glioblastoma trwy nodi llwybrau triniaeth newydd.



1. <https://gtr.ukri.org/projects?ref=MR%2FXO18318%2F1>

## Adnewyddu Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol UKRI ym Mhrifysgol Bangor am 3 blynedd arall

Mae ymchwil bioleg canser a ffarmacoleg yn flaenoriaeth strategol i Ysgol Feddygaeth newydd Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor. Roedd penodi bum aelodau newydd i'r **Sefydliad Ymchwil Canser y Gogledd Orllewin (NWCRI)** yn ddiweddar, gan gynnwys metaboledd canser, canser yr ysgyfaint, imiwnbioleg tiwmor, lewcemia myeloid aciwt, a datblygu cyffuriau canser y fron yn tanlinellu hyn.

Mae diddordebau ymchwil yn NWCRI yn cyd-fynd â thema 1 CReST (Oncoleg Fecanistaidd a Manwl-gywir). Mae'r tîm yn cynnwys **Dr Chris Staples**, biolegydd celloedd canser sy'n canolbwyntio ar uniondeb genomau ac sy'n **Gymrawd Arweinwyr y Dyfodol UKRI** ar hyn o bryd. Roedd ei gymrodoriaeth gychwynol am £1.4 miliwn yn rhedeg o 2019 i 2023, a llwyddodd i gael **£657k wrth ei adnewyddu yn 2023–26**.

Mae ymchwil yn labordy Staples yn canolbwyntio ar ganfod mecanweithiau newydd lle gall celloedd canser wrthsefyll cemotherapiau sy'n niweidiol i DNA, a sut mae difrod DNA mewn tiwmorau yn arwain at lid.<sup>1,2</sup>




1. Bennett et al. *MRNIP limits ssDNA gaps during replication stress*. *Nucleic Acids Res* 2024;52:8320–8331.

2. Gamble et al. *IFI16 senses and protects stalled replication forks*. *Mol Cell* 2026;86:258–272.

## Patent ar gyfer triniaeth PROTAC arloesol ar gyfer lewcemia myeloid aciwt

Ym mis Ionawr 2024, cafodd **yr Athro Simon Ward** o Brifysgol Caerdydd a'i dîm yn y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau **batent ar gyfer eu chimaera newydd gwrth-KAT2A sy'n targedu proteolysis (PROTAC)**.<sup>1</sup> Swyddogaeth y cyfansoddion hyn yw targedu'r protein KAT2A, sy'n gyfrifol am gynnal bôn-gelloedd cancer, a phan fydd yn cael ei ddiraddio gall ganiatáu ymosodiad ar imiwnedd, gan ddisbyddu'r celloedd cancer.

Roedd y Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC) wedi cydnabod potensial y gwaith hwn, a dyfarnodd **£1.8 miliwn i'r tîm i ymchwilio effeithiolrwydd** y triniaethau PROTAC newydd hyn **ar gyfer lewcemia myeloid aciwt**.<sup>2,3</sup> Dyma'r dyfarniad mawr cyntaf i ddod â doniau ac adnoddau'r Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau i'r maes cancer, gyda'r cyllid yn rhedeg o Ionawr 2024 tan Hydref 2025, gan arwain at gyfansoddion newydd yn cael eu datblygu a'u profi mewn astudiaethau cyn-glinigol hwyr.



- <https://patentscope.wipo.int/search/en/WO2024003533> (2024).
- <https://gtr.ukri.org/projects?ref=MR%2FXO29557%2F1>
- <https://www.cardiff.ac.uk/medicines-discovery/research/projects> (2025)

## NICE ac FDA yn cymeradwyo'r cyffur cancer y fron, capivasertib, ar ôl treialon a arweinir gan Gaerdydd

Dangosodd treialon clinigol a gynhaliwyd gan ein timau, o dan arweiniad **yr Athro Rob Jones** ym Mhrifysgol Caerdydd ac yng Nghanolfan Ganser Felindre, fod yr amser goroesi wedi dyblu pan oedd cyffur newydd, capivasertib yn cael ei ychwanegu at hormon safonol o gymharu â phlasebo a hormon.<sup>1</sup> Penderfynwyd y byddai'r driniaeth hon yn arwain at fudd sylweddol i'r is-set o gleifion a fyddai wedi dioddef sgil-ffeithiau sylweddol fel arall gydag opsiynau triniaeth amgen.

Ym mis Tachwedd 2023, cadarnhaodd **Gweinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau** yr Unol Daleithiau'r canfyddiadau hyn a **chymeradwyo capivasertib** fel cyffur cyntaf ar gyfer cleifion â chanser y fron ER positif datblygedig, HER-2 negyddol.<sup>2</sup>

Ym mis Ebrill 2025, dilynnodd **y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd ac Ymchwil Glinigol** eu hesiampl a chymeradwyo capivasertib i'w ddefnyddio yng Nghymru a Lloegr,<sup>3</sup> gan sicrhau bod y driniaeth hon ar gael i oddeutu 8,000 o fenywod y flwyddyn.



- Howell et al. Fulvestrant plus capivasertib versus placebo after relapse or progression on an aromatase inhibitor in metastatic, oestrogen receptor-positive, HER2-negative breast cancer (FAKTION): overall survival, updated progression-free survival, and expanded biomarker analysis from a randomised, phase 2 trial. *Lancet Oncol* 2022;23:851–864.
- <https://www.fda.gov/drugs/resources-information-approved-drugs/fda-approves-capivasertib-fulvestrant-breast-cancer>
- <https://www.nice.org.uk/guidance/ta1063> (2025).

## Awen Oncology yn ennill sawl gwobr ac yn dechrau partneriaethau cenedlaethol/rhyngwladol newydd

Datblygiad arbennig yw'r cwmni deillio **Awen Oncology**<sup>1</sup> o Brifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd. Dyma gwmni darganfod cyffuriau sydd wedi'i ariannu gan fuddsoddwyr cyfalaf menter. Mae'n canolbwyntio ar ddsbarth newydd o therapiwtigau sy'n targedu ffactorau canser-benodol nad oes unrhyw gyffuriau'n bodoli ar eu cyfer.

Ymhlith y buddsoddwyr cyfalaf menter mae Banc Datblygu Cymru. Mae'r cyllid wedi'i ategu gan grantiau gan Lywodraeth Cymru ac Innovate UK. Cafodd y cwmni, y dechreuodd ei waith gyda chymorth grant gan Rwydwaith Gwyddorau Bywyd Cymru, ei sefydlu yn 2021 gan Dr Ramsay McFarlane, Dr Jane Wakeman a'r Athro Andrea Brancale. Cartref y cwmni yw **M-SParc, Parc Gwyddoniaeth Prifysgol Bangor ar Ynys Môn**.

Yn y cyfnod datblygu cynnar, cafodd Awen Oncology ei ddewis gan Ymchwil Canser y DU yn un o'r chwe phrif fentrau ym maes oncoleg, gan weithio'n agos gyda rhai o'r cwmnïau fferyllol mwyaf yn y byd a sicrhau cysylltiad swyddogol â Sefydliad Therapiwteg Milner Prifysgol Caergrawnt. Ers y llwyddiannau cynnar hyn, mae Awen Oncology wedi ennill **Gwobr yr Egin Fusnes Datblygol Gorau** yn BioVaria 2023, a chafodd ei ddewis ar gyfer **rhaglen Twf Uchel arbennig Innovate UK**. Wedi hynny, sicrhodd gyllid gan Innovate UK i gydweithio â **Medicines Discovery Catapult**, sef sefydliad ymchwil a thechnoleg, a hefyd y dyfarniad cyntaf yng Nghymru gan raglen Partneriaethau Buddsoddi Innovate UK o dan y thema Economiâu'r Dyfodol.

Yn fwy diweddar, enillodd Awen Oncology y **Wobr Dechrau Busnes yng Ngwobrau Arloesi MediWales 2024**. Awen Oncology hefyd oedd **enillydd o2h Kickstarter 2025** sy'n ceisio rhoi hwb i'r gwaith o ddarganfod cyffuriau'n fyd-eang.

1. <https://www.awenoncology.com/>




## Pecyn cymorth cynnwys y cyhoedd wedi'i gyd-gynhyrchu yn cael ei lwytho i lawr dros 1600 o weithiau ar draws y byd

Lansiwyd y **Pecyn Cymorth Effaith Cynnwys y Cyhoedd mewn Ymchwil (PIRIT)**<sup>1</sup> ym mis Chwefror 2023, ac mae wedi'i lwytho i lawr 1600+ o weithiau gan ddefnyddwyr o >30 o wledydd.

Cynhyrchwyd PIRIT ar y cyd gan **Ganolfan Ymchwil Marie Curie Caerdydd, Canolfan Ymchwil Canser Cymru, a 27 aelod o'r cyhoedd**. Mae'r pecyn cymorth bellach wedi'i gynnwys yng nghanllawiau cyllido Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan ym mhob dyfarniad.

Cafodd **chyhoeddiad a adolygwyd gan gymheiriaid** ar PIRIT a gwybodaeth am bwysigrwydd cynnwys y cyhoedd eu cyhoeddi mewn ymchwil ym mis Mawrth 2025,<sup>2</sup> gan ddangos sut mae'r adnodd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni a gwerthuso rhan y cyhoedd mewn dyfarniad Ewropeaidd sy'n cynnwys sawl canolfan.



1. <https://www.cardiff.ac.uk/marie-curie-research-centre/patient-and-public-involvement/public-involvement-in-research-impact-toolkit-pirit> (2023)

2. Edwards et al. Involving patients and the public in cancer associated thrombosis research: A strategy for success. *Thromb Update* 2025;18:100196.


## Y claf cyntaf yn derbyn imiwnotherapi feirysol newydd a ddatblygwyd yng Nghymru yng ngham I treial ATTEST

Mae **Accession Therapeutics** wedi dechrau trin cleifion yng ngham 1 treial ATTEST TROCEPT-01 (ATTR-01), sef **imiwnotherapi feirysol newydd sbon wedi'i actifadu gan diwmor** ar gyfer tiwmorau soled.<sup>1,2</sup>

**Yr Athro Alan Parker** o Brifysgol Caerdydd yw cyd-ddyfeisiwr plattform Trocept, a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae'n Brif Swyddog Gwyddonol **is-gwmni Trocept Therapeutics Accession Therapeutics** lle mae'r dechnoleg yn cael ei datblygu.

Ar ôl cyflwyno TROCEPT-01 yn systemig, mae'n cynhyrchu atalydd gwirio imiwnedd yn ddetholus o fewn tiwmorau. Mae'r dull hwn yn targedu integrin  $\alpha\beta6$  ar diwmorau epithelaidd, i sicrhau'r effeithiolrwydd gorau a lleihau difrod i feinwe iach. Dangosodd astudiaethau cyn-glinigol weithgarwch gwrth-diwmor cryf mewn modelau tiwmor solet lluosog, gan ddangos ei botensial i'w ddefnyddio i drin canserau ymosodol.


Bydd y treial ATTEST label agored yn asesu diogelwch, goddefgarwch, ffarmacocineteg, ac effeithiolrwydd rhagarweiniol mewn cleifion â charsinomâu datblygedig ar draws safleoedd y DU gan gynnwys Caerdydd, gyda chynlluniau i ehangu i Sbaen.



## Uned Firoleg Gymhwysol Cymru yn rhoi hwb i ymchwil canser ym Mhrifysgol Caerdydd

Nod **Uned Firoleg Gymhwysol Cymru (WAVU)**<sup>1</sup> yw lleihau baich clefydau feirysol drwy ddatblygu a gwerthuso strategaethau rheoli ac ymyrryd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno prosesau therapiwteg datblygedig y genhedlaeth nesaf, o frechlynnau gwell i frwydro yn erbyn clefydau heintus a chanser, i lwyfannau feirysol wedi'u peiriannu ar gyfer cymwysiadau oncoleg a golygu genomau.

Lansiwyd yr uned newydd ym mis Ebrill 2025 ar ôl cael **cyllid o £3 miliwn** gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae Alan Parker (Athro Feiroleg Drosiannol), Richard Stanton (Athro Feiroleg) a David Gillespie (Cyfarwyddwr Treialon Heintiau, Llid ac Imiwnedd yn y Ganolfan Treialon Ymchwil) yn gyd-gyfarwyddwyr.



1. <https://www.accessiontherapeutics.com/attest-clinical-trial> (2025)


2. <https://www.isrctn.com/ISRCTN38972074>

1. <https://www.cardiff.ac.uk/research/explore/research-units/wales-applied-virology-unit>

## Andrew Sewell o Brifysgol Caerdydd yn cael ei gydnabod am ymchwil therapiau celloedd-T

Ym mis Gorffennaf 2023, roedd yr **Athro Andrew Sewell** a'i dîm yn y Sefydliad Ymchwil er Imiwnedd Systemau, Prifysgol Caerdydd, yn un o ddim ond tri enillydd **Gwobrau Ymchwil Arbennig Molecular Cloud**,<sup>1</sup> a oedd yn gwobrwyo llwyddiannau rhagorol mewn therapi genynnau, therapi celloedd a datblygu brechlynnau. Cafodd y tîm ei gydnabod am ei waith arloesol ar therapiau derbynyddion celloedd T.<sup>2</sup>

Mae'r Athro Sewell hefyd yn rhan o gonsortiw m rhyngwladol **NexTGen Grand Challenge**,<sup>3</sup> a oedd yn cael ei ariannu yn 2022 gan Ymchwil Canser y DU, y Sefydliad Canser Cenedlaethol a Sefydliad Mark ar gyfer Ymchwil Canser. Nod NexTGen yw creu therapiau celloedd T cenhedlaeth newydd wedi'u peiriannu ar gyfer plant â chanserau solet. Bydd yn cynnwys tri threial clinigol cyfnod cynnar – un yn y DU a dau yn UDA – a fydd yn canolbwyntio i ddechrau ar rhabdomyosarcoma, sarcoma Ewing a thiwmorau ymosodol ar yr ymennydd.



1. <https://www.molecularcloud.org/2023-distinguished-research-awards.html>

2. Dolton et al. Targeting of multiple tumor-associated antigens by individual T cell receptors during successful cancer immunotherapy. *Cell* 2023;186:3333–49.


3. <https://nex-t-gen.com/>

## Grant rhaglen newydd ym Mhrifysgol Caerdydd i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu brechlynnau canser y genhedlaeth nesaf

Mae'r **Athro Andrew Godkin** a'r **Athro Awen Gallimore** ym Mhrifysgol Caerdydd<sup>1</sup> wedi derbyn arian ar gyfer rhaglen ddarganfod Ymchwil Canser y DU ar **optimeiddio ymatebion celloedd-T CD4+ gwrth ganser** trwy addasu antigenau dosbarth II HLA yn foleciwlaidd. Dechreuodd y dyfarniad am ~£2 filiwn ym mis Rhagfyr 2025 a bydd yn para am 5 mlynedd.

Bydd y tîm ymchwil yn ymchwilio a ellir peiriannu **antigenau canser y colon a'r rhefr** ymgeisiol i ddod yn fwy imiwnogenig. Yna, bydd yr antigenau hyn, sydd wedi'u haddasu, yn cael eu rhoi mewn brechlynnau a'u hasesu gan ddefnyddio systemau cyn-glinigol uwch, gan gynnwys organoidau a ddatblygwyd drwy gydweithio â Sefydliad Beatson.

Trwy gynllunio antigenau sy'n effeithiol yn eang, nod y tîm yw creu brechlynnau a allai fod ar gael i bob claf canser y colon a'r rhefr. Mae hwn yn ddewis arall i'r dull imiwnotherapiau personol iawn, sydd, er eu bod yn addawol, yn ddrud ac yn llai hygyrch.



1. <https://www.cancerimmunology.co.uk/>

## Penodi clinigydd Bae Abertawe yn arweinydd y DU ar gyfer sicrhau ansawdd treialon radiotherapi

Penodwyd **Dr Sarah Gwynne**, oncolegydd clinigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, i rôl **arweinydd meddygol grŵp sicrhau ansawdd treialon radiotherapi (RTTQA) NIHR** ym mis Gorffennaf 2023. Mae Grŵp RTTQA yn rhwydwaith annibynnol, aml-ddisgyblaethol, wedi'i leoli ar draws nifer o safleoedd GIG y DU. Mae'r cylch gorchwyl yn cynnwys monitro diogelwch, cysondeb a chywirdeb triniaeth o fewn treialon clinigol. Mae'r grŵp yn cael ei ariannu gan Rwydwaith Ymchwil Glinigol NIHR.

Dr Gwynne oedd yr arweinydd sicrhau ansawdd ar gyfer treialon NeoSCOPE a SCOPE 2 o dan arweiniad Cymru, ac ar hyn o bryd mae'n arweinydd sicrhau ansawdd ar gyfer y treial proton gyda chanser yr oesoffagws (PROTIEUS). Mae hi wedi cyhoeddi sawl papur ar wella sicrwydd ansawdd, gan gynnwys erthygl olygyddol ar effaith rhaglen RTTQA NIHR ers ei sefydlu<sup>1</sup> a dysgodd o raglen RTTQA treial SCOPE 2 y gellir ei defnyddio i lywio'r treialon radiotherapi nesaf ar gyfer yr oesoffagws.<sup>2</sup>

Mae Dr Gwynne hefyd yn aelod o'r **Grŵp Cysoni Byd-eang, (grwpiau sicrhau ansawdd o bob cwr o'r byd)**, ac yn cymryd rhan mewn 3 is-grŵp sy'n edrych ar ddatblygu canllawiau consensws ar gyfer adrodd yn gyson ar ganlyniadau sicrhau ansawdd treialon, datblygu meini prawf ar gyfer amrywiadau derbyniol ac annerbyniol o ran amlinellu mewn treialon a datblygu'r dystiolaeth ar gyfer effaith amlinellu amrywiad ar ganlyniad.



1. Miles et al. The National Radiotherapy Trials Quality Assurance Group – Driving up Quality in Clinical Research and Clinical Care. *Clin Oncol* 2024;36:273-277

2. Helbrow et al. Radiotherapy Quality Assurance in the SCOPE2 Trial: What Lessons can be Learned for the Next UK Trial in Oesophageal Cancer? *Clin Oncol* 2025;38:103735

## Cymru yw'r wlad ddatganoledig gyntaf i gynnig treialon therapi pelydrau proton

Mae therapi pelydrau proton (PBT) yn fath newydd o radiotherapi sy'n defnyddio gronynnau wedi'u gwefru yn hytrach na phelydr-X, i dargedu tiwmorau yn fwy manwl. Cymru oedd y wlad ddatganoledig gyntaf i gynnig treialon PBT i'w chleifion, ac mae bellach wedi agor i astudiaethau yn y canlynol:

- canserau'r pen a'r gwddf (TORPEdO)<sup>1</sup>, y treial PBT cyntaf i'w gynnal yn y DU
- canser y fron (PARABLE)<sup>2</sup>
- canser yr oesoffagws (PROTIEUS)<sup>3</sup>
- oligodendroglioma (APPROACH)<sup>4</sup>
- canser y sinws a'r trwyn (PROTIS)<sup>5</sup>
- mesothelioma (Hit-MESO).<sup>6</sup>

Bydd cleifion yn y treialon hyn sy'n cael eu neilltuo i dderbyn PBT yn teithio i Loegr i dderbyn triniaeth, gyda chostau teithio'n cael eu talu.

Mae ymgynghorwyr o Ganolfan Ganser De Orllewin Cymru a Chanolfan Ganser Felindre yn darparu arweinyddiaeth fel aelodau o'r grwpiau rheoli treialon ar gyfer nifer o'r astudiaethau hyn.



1. TORPEdO: <https://www.isrctn.com/ISRCTN16424014>

2. PARABLE: <https://www.isrctn.com/ISRCTN14220944>

3. PROTIEUS: <https://www.isrctn.com/ISRCTN50098578>

4. APPROACH: <https://www.isrctn.com/ISRCTN13390479>

5. PROTIS: <https://www.isrctn.com/ISRCTN15983654>

6. Hit-MESO: <https://clinicaltrials.gov/study/NCT05655078>

## SERENITY: Cydweithrediad Ewropeaidd i werthuso defnyddio meddyginiaethau gwrth-thrombotig diwedd oes

Ym mis Hydref 2022, rhoddodd **Horizon Ewrop** gyllid o **€6 miliwn** i gefnogi **astudiaeth SERENITY** hyd at fis Medi 2027, gyda £1.08 miliwn o'r cyfanswm yn dod i Gymru.

Mae'r prosiect yn cael ei **arwain ar y cyd gan dimau o Brifysgol Caerdydd** (gyda'r Athro Simon Noble yn cydlynu), **ac Academisch Ziekenhuis Leiden, yr Iseldiroedd**. Trwy gyfres o saith ffrwd waith, mae grŵp o ymchwilwyr o naw gwlad yn Ewrop yn ceisio cynhyrchu pecyn cymorth i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ei ddefnyddio mewn cydweithrediad â chleifion a gofalwyr i ddarparu cyfarwyddyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ddefnyddio meddyginiaethau gwrth-thrombotig ar ddiwedd oes. Mae'r ffrwd waith PPI yn cael ei harwain o Brifysgol Caerdydd.<sup>1</sup>

Bydd gwerthuso tystiolaeth yn y byd go iawn yn siapio dull sy'n canolbwyntio ar y claf tuag at reolaeth gwrth-thrombotig mewn canser terfynol, gan wella ansawdd bywyd, boddhad â thriniaeth, a gwneud penderfyniadau gwybodus mewn gofal diwedd oes.




1. Edwards et al. Involving patients and the public in cancer associated thrombosis research: A strategy for success. *Thromb Update* 2025;18:100196

## Cyhoeddi astudiaeth gofal diwedd oes gan ddefnyddio Banc Data SAIL

Mae astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru trwy Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi'i chyhoeddi yn The Lancet Regional Health – Europe, yn datgelu **sut mae pobl yng Nghymru yn cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal yn eu blwyddyn olaf**.<sup>1</sup> Mae'n defnyddio data dienw, cysylltiedig o **Fanc Data SAIL**.

Tîm aml-ddisgyblaethol ym **Mhrifysgol Abertawe** oedd yn arwain yr ymchwil, mewn cydweithrediad â **Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Bryste, a Rhaglen Glinigol Genedlaethol Cymru ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes**.

Dadansoddodd y tîm ddata gan dros 267,000 o unigolion yng Nghymru a fu farw o achosion heb fod yn sydyn rhwng 2014 a 2023, a modelu mwy na 1.8 miliwn o drawsnewidiadau rhwng lleoliadau iechyd a gofal. Canfu bod y galw am ofal brys wedi cynyddu'n gyflym tua diwedd oes; bod 90% o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ar frys yn dod o'u cartrefi eu hunain; a bod gan unigolion ar y gofrestr gofal lliniarol gyfradd uwch o dderbyniadau brys i'r ysbyty ond bod disgwyl iddynt aros yno am lai o amser. Mae setiau data ar y raddfa hon yn galluogi astudiaethau fel hyn, sy'n cefnogi'r gwaith o lunio polisiau yng Nghymru.



1. Owen et al. Health and care service utilisation in the last year of life before non-sudden death in Wales, 2014–2023, by palliative care registration: a population-based retrospective cohort study. *Lancet Reg Health* 2025;59:101479

## Gorffen recriwtio ar gyfer astudiaeth QuicDNA o fiopsi hylif ar gyfer diagnosis cancer yr ysgyfaint

Lansiwyd astudiaeth QuicDNA<sup>1</sup>, o dan arweiniad ar y cyd **Dr Magdalena Meissner** (Oncolegydd Meddygol Ymgynghorol yng Nghanolfan Ganser Felindre a Phrifysgol Caerdydd) a Sian Morgan (Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan) yn 2023, gyda chyllid o **£1.9 miliwn** gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Sefydliad Craig Maxwell, Sefydliad Cancer Moondance, a phartneriaid y diwydiant.<sup>2</sup>

Nod yr astudiaeth yw integreiddio biopsi hylif (prawf gwaed ctDNA) i mewn i lwybr diagnostig cancer yr ysgyfaint, gan leihau'r amser a gymerir i wneud penderfyniadau triniaeth wedi'u personoli ar gyfer cleifion unigol, a gwella eu canlyniadau. Ym mis Tachwedd 2025, **llwyddwyd i gyrraedd targed recriwtio cleifion i'r astudiaeth QuicDNA**, sef o 760 o gleifion.<sup>3</sup> Mae'r prawf ctDNA ers hynny wedi'i gymeradwyo, ei gomisiynu, ac wedi'i ymgorffori yn llwybr diagnostig cancer yr ysgyfaint gorau posibl Cymru.

Mae tîm yr astudiaeth bellach yn ehangu'r rhaglen gyda QuicDNA Max, a fydd yn ymestyn y defnydd o fiopsi hylif i ystod ehangach o fathau o diwmor solet. Cefnogir QuicDNA Max â chyllid o **£2.52 miliwn**<sup>4</sup> gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Gwyddorau Bywyd y DU, a phum cwmni fferyllol. Yn y pen draw, y nod yw y bydd biopsi hylif yn dod yn offeryn safonol yn y llwybr diagnostig, gan fyrhau'r amserlen rhwng diagnosis a thriniaeth, a gwella canlyniadau goroesi i gleifion cancer.



## Claf o Gymru yn cael ei anrhydeddu am godi arian er mwyn cyflymu ymchwil cancer genomig

Diolch i ymdrechion **Mr Craig Maxwell**, dyn lleol o Benarth a gafodd ddiagnosis o ganser terfynol yr ysgyfaint yn 2022, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r cyllid ar gyfer astudiaeth QuicDNA, yn ogystal ag ymchwil genomeg yng Nghymru gyfan, wedi cynyddu.

Mae Mr Maxwell wedi treulio'r amser ers ei ddiagnosis yn ymgymryd â heriau amrywiol. Mae ei ymdrechion hyd yn hyn **wedi codi dros £1.6 miliwn i'w sefydliad,<sup>1</sup> Cronfa Genomeg Teulu Maxwell**. Mae £430k o hyn wedi mynd yn uniongyrchol i'r **treial QuicDNA**, astudiaeth y mae'n gobeithio y bydd yn helpu unigolion sy'n cael yr un diagnosis ag ef yn y dyfodol.

Dyfarnwyd medal **Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig** iddo yn Anrhydeddau Blwyddyn Newydd 2025 i gydnabod ei wasanaethau elusenol a gwirfoddol rhagorol yn Gwella Canlyniadau i Bobl â Chanser.<sup>2</sup>



1. <https://www.isrctn.com/ISRCTN22734699> (2025)

2. <https://www.cardiff.ac.uk/centre-for-trials-research/research/studies-and-trials/view/quicdna> (2025)

3. <https://lshubwales.com/projects/quicdna-liquid-biopsy-real-world-evaluation> (2025)

4. <https://healthandcareresearchwales.org/about/news/major-investment-cancer-diagnosis-wales> (2025)

1. <https://cavuhb.nhs.wales/news/latest-news/lung-cancer-patient-craig-maxwell-to-set-sail-on-a-72-mile-row-to-bring-hope-to-cancer-patients-across-wales/> (2025)

2. <https://www.gov.uk/government/publications/new-year-honours-list-2025> (2025)

## Yr athro o Gaerdydd, Sunil Dolwani yn ysgwyddo rôl arwain menter Canfod Cancer ar Sail Data (CD3) y DU

Cyhoeddodd Ymchwil Cancer y DU gyllid o £10 miliwn ar gyfer y **Rhaglen Canfod Cancer ar Sail Data (CD3)** ym mis Ionawr 2025. Mae hon yn rhaglen ymchwil genedlaethol strategol newydd, amlddisgyblaethol ac aml-sefydliadol sydd wedi ymroi i ddefnyddio data i drawsnewid ein dealltwriaeth o risg cancer a galluogi dal canserau yn gynnar. Mae'n fuddsoddiad blaenllaw a ariennir drwy ddyfarniad rhaglen strategol gan Ymchwil Cancer y DU, y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), Cyngor Ymchwil Peirianeg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC), a Sefydliad Peter Sowerby; mewn partneriaeth ag Ymchwil Data Iechyd y DU (HDR UK) a rhaglen Ymchwil Data Gweinyddol y DU (ADR UK) y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.<sup>1</sup>

Mae'r rhaglen yn cael ei harwain gan yr Athro Antonis Antoniou (Prifysgol Caergrawnt) a **Phrif Swyddog Meddygol** y fenter yw'r **Athro Sunil Dolwani**, Athro Gastroenteroleg yn yr Is-adran Meddygaeth Poblogaeth ym Mhrifysgol Caerdydd a Gastroenterolegydd Ymgynghorol er Anrhydedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Nod CD3 yw **cynhyrchu offer AI a modelau newydd i ragweld risg cancer**, drwy gyrchu a chysylltu data o gofnodion iechyd, genomeg, hanes teuluol, demograffeg a data ymddygiadol.



1. <https://news.cancerresearchuk.org/2025/01/22/10m-funding-cancer-data-driven-detection-programme> (2025)

## Setiau data cysylltiedig yng Nghymru i lywio ymyriadau atal cancer a chanfod cancer yn gynnar yn y dyfodol

Mae adroddiad **Data Insight**<sup>1</sup> gan dîm ymchwil Heriau **Cymdeithasol Mawr Ymchwil Data Gweinyddol Cymru**<sup>2</sup> wedi asesu dichonoldeb **cysylltu data gwasanaethau cancer**, gan gynnwys cofnodion sgrinio a diagnosis, **â data gweinyddol ychwanegol ym Manc Data SAIL**. Mae hwn yn gam tuag at ddeall sut mae nifer yr achosion o ganser a phatrymau sgrinio cancer yn wahanol ar draws gwahanol grwpiau o bobl.

Defnyddiodd y tîm ffynonellau a oedd yn casglu data ar gyfer sgrinio cancer y fron a'r coluddyn, y cancer mwyaf cyffredin a'r pedwerydd mwyaf cyffredin yn y DU. Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn awgrymu y gall ffactorau demograffig-gymdeithasol ddylanwadu ar gymryd rhan mewn sgrinio am ganser. Yn benodol, canfu tîm yr astudiaeth y gallai **unigolion sengl, y rhai sydd ag addysg is, a'r rhai o ardaloedd mwy difreintiedig fod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn sgrinio**.

Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn cael eu defnyddio i lywio cyfleoedd data fel rhan o'r rhaglen newydd Canfod Cancer ar Sail Data (CD3).



1. Chiovolini et al. <https://adrwales.org/wp-content/uploads/2025/03/Exploring-cancer-inequalities-in-Wales-through-linked-administrative-data.pdf>

2. Administrative Data Research Wales. <https://adrwales.org/our-focus/major-societal-challenges/>


## Ymchwil clinigol ym maes cancer yng Nghymru

Mae cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn treialon cancer yng Nghymru yn nod parhaus.

Mae'r Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Cancer yn goruchwyllo ffrydiau gwaith gwybodaeth a deallusrwydd Cynllun Gwella Cancer GIG Cymru 2023-2026,<sup>1,2</sup> fel cydweithrediad rhwng Perfformiad a Gwella GIG Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd.

Mae'r diagram gyferbyn yn dangos recriwtio yn ystod y 3 blynedd diwethaf, ac mae'r tudalennau canlynol yn tynnu sylw at rai o'r treialon a gafodd eu harwain yng Nghymru a'u cerrig milltir diweddar.

**Nifer y cleifion wedi'u recriwtio i gymryd rhan mewn astudiaethau cancer portffolio yng Nghymru (Ionawr 2022 - Rhagfyr 2025)**



Data recriwtio yn ôl y prif is-arbenigedd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o System Rheoli Portffolios y DU

1. <https://performanceandimprovement.nhs.wales/functions/networks-and-planning/cancer/workstreams/information-and-intelligence/> (2025).

2. <https://dhcw.nhs.wales/news/latest-news/digital-system-for-managing-cancer-data-in-wales-takes-important-step-forward/> (2025).

**PICCOS****Agor yr hap-dreial dan reolaeth cyntaf yn y DU sy'n ymchwilio i gyflenwi cemotherapi mewneritonaidd trwy aerosol**

Mae tîm ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, o dan arweiniad Dr Sadie Jones a'r Athro Jared Torkington, wedi sicrhau grant o £1.9 miliwn gan NIHR i ariannu treial PICCOS.

Dyma'r hap-dreial dan reolaeth cyntaf yn y DU i werthuso effeithiolrwydd cemotherapi mewneritonaidd trwy aerosol dan wasgedd (PIPAC), o'i gymharu â chemotherapi systemig safonol i drin metastasis peritoneol o ganser y colon a'r rhefr, yr ofari a'r stumog, yn ogystal ag asesu'r effaith ar ansawdd bywyd i'r cleifion hyn. Os yw'n llwyddiannus, gallai hyn fod yn llwybr triniaeth newydd ar gyfer y canserau anodd i'w trin, gan gynnig mwy o opsiynau i gleifion ledled y DU.

Dechreuodd y treial ym mis Tachwedd 2022 ac mae disgwyl iddo redeg tan 2026, gyda'r nod o recriwtio 216 o gleifion ar draws y tri math o ganser.



Grant o £1.9M  
gan NIHR



Ar agor i recriwtio



Recriwtio ar hyn  
o bryd



[ISRCTN17575409](https://www.isrctn.com/clinical-trials/17575409)

**OPTIMISE-FLT3****Grant £1.7 miliwn gan Ymchwil Canser y DU ar gyfer treial haematoleg yng Nghaerdydd**

Dechreuwyd recriwtio ar gyfer cam 3 treial OPTIMISE-FLT3 ym mis Chwefror 2025. Mae'n cael ei arwain gan y prif ymchwilydd, yr Athro Steven Knapper (Prifysgol Caerdydd), yn cael ei ariannu gan Ymchwil Canser y DU ac yn rhedeg tan 2030.

Bydd y cyllid o £1.7 miliwn yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r treial, gan edrych ar yr opsiynau triniaeth gorau ar gyfer is-grŵp o gleifion lewcemia myeloid aciwt (AML) sydd â mwtaniad actifadu'r genyn FLT3. Mae'r cleifion hyn yn cyfrif am oddeutu 30% o achosion newydd o AML ac maent mewn mwy o berygl o gael ail bwl o'r clefyd ar ôl triniaeth gychwynnol. Y safon gofal bresennol yw cemotherapi gyda'r midostaurin atalydd tyrosin cinas; bydd y treial hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau astudiaethau AML blaenorol o dan arweiniad Caerdydd drwy ymchwilio i ychwanegu gemtuzumab ozogamicin a'r defnydd o asgwrn cefn cemotherapi dwysach (FLAG-Ida) gyda'r nod o benderfynu ar yr opsiwn triniaeth gychwynnol mwyaf effeithiol ar gyfer y grŵp hwn o gleifion.

Prif nodau'r treial yw darganfod a yw unrhyw un o'r cyfuniadau arfaethedig o driniaeth yn gweithio'n well na thriniaeth safonol, a deall mwy am oddefgarwch cyffuriau a sgil-ffeithiau. Os bydd y drefn hon yn llwyddiannus, mae'n debygol y bydd yn cael ei rhoi ar waith fel safon gofal i gleifion newydd yn y dyfodol.



Grant o £1.7M  
gan CRUK



Ar agor i recriwtio



Recriwtio ar hyn  
o bryd



[ISRCTN34016918](https://www.isrctn.com/clinical-trials/34016918)

**COLOSPECT**

Dros 1900 o gleifion yn cymryd rhan mewn astudiaeth ar gyfer sgrinio am ganser y coluddyn

Mae COLOSPECT, yn cael ei arwain gan yr Athro Dean Harris (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) ac mae wedi recriwtio dros 1,900 o'r cyfanswm targed o 2,000 o gleifion, felly mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gwblhau'r broses recriwtio yn gynnar yn 2026. Mae'r astudiaeth, sy'n cael ei hariannu trwy grant o £439,622 gan Ymchwil Canser Cymru, yn ymchwilio i werth cyflwyno prawf gwaed (o'r enw y prawf Raman) at y llwybr sgrinio ar gyfer canser y coluddyn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi COLOSPECT trwy fodel Un Safle Cymru; dyma'r safle arweiniol sy'n cefnogi recriwtio, gyda Phennaeth y Rhaglen yn Sgrinio Coluddyn Cymru yn brif ymchwilydd.

Ar hyn o bryd, gwahoddir cyfranogwyr sydd wedi cael eu sgrinio sy'n dychwelyd prawf imiwnocemegol ar ysgarthion positif (FIT) am golonsgopi. Gallai cyflwyno prawf gwaed canolog, sensitif iawn helpu clinigwyr i flaenoriaethu cleifion risg uchel, a allai arwain yn y pen draw at ddiagnosisio canser yn gynharach mewn unigolion sy'n dychwelyd prawf gwaed FIT a Raman positif.

Amcangyfrifir hefyd y gellid osgoi hyd at 30% o brofion colonsgopi trwy ddefnyddio'r prawf gwaed Raman yn ar y cyd â FIT, a thrwy hynny arbed adnoddau'r GIG ac atal unigolion rhag gorfod cael triniaethau diangen. Nod yr astudiaeth yw diffinio cywirdeb prawf gwaed Raman a nodi'r lle gorau i'w ddefnyddio'n ymarferol.



Grant o £0.44M gan CRW



1900+ o gleifion wedi ymrestru hyd yma



Recriwtio ar hyn o bryd



RR7925

**AML18**

Canlyniadau treial AML18 yn addo opsiynau triniaeth newydd ar gyfer cleifion AML sydd â chlefyd gweddilliol

Roedd y tîm yn y Ganolfan Treialon Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd, o dan arweiniad Mr Ian Thomas, yn gyfrifol am gyflwyno'r treial AML18 cam III mewn cydweithrediad â Gweithgor Lewcemia Myeloid Acíwt (AML) NCRI, gyda'r Athro Nigel Russell (Prifysgol Nottingham) yn Brif Ymchwilydd a'r Athro Steve Knapper (Prifysgol Caerdydd) yn gyd-Brif Ymchwilydd. Roedd y treial rhyngwladol, a ariannwyd gan Ymchwil Canser y DU, wedi'i ddatblygu i ymchwilio i opsiynau triniaeth ar gyfer cleifion hŷn ag AML neu syndrom myelodysplastig risg uchel.

Daeth recriwtio i AML18 i ben ym mis Rhagfyr 2022, ar ôl rhedeg ers 2014. Dilynwyd cleifion tan ganol 2025, gyda 1935 o gleifion wedi ymrestru; 335 yn fwy na tharged y treial. Roedd nifer o ganfyddiadau o'r treial<sup>1</sup>, a dangosodd un ohonynt fod dwysáu cemotherapi yn gwella cyfraddau goroesi mewn cleifion ag AML nad oeddent wedi ymateb i'w cwrs cyntaf, gan ddarparu opsiwn triniaeth bosibl yn y dyfodol ar gyfer y grŵp anodd ei drin hwn.

1. Russell et al. Treatment Intensification With Either Fludarabine, AraC, G-CSF and Idarubicin, or Cladribine Plus Daunorubicin and AraC on the Basis of Residual Disease Status in Older Patients With AML: Results From the NCRI AML18 Trial. *J Clin Oncol* 2025;43:694–704.



Grant o £0.9M gan CRUK



1935 o gleifion wedi ymrestru



Canlyniadau wedi'u cofnodi



EUCTR2013-002730-21-GB

**PATHOS****Cyrraedd targed recriwtio byd-eang ar gyfer treial cancer oroffaryngeaidd PATHOS**

Mae treial PATHOS, sy'n hap-dreial clinigol dan reolaeth cam III, yn cael ei arwain gan yr Athro Mererid Evans (Prifysgol Caerdydd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre) a'r Athro Terry Jones (Prifysgol Lerpwl), ac yn cael ei redeg gan y Ganolfan Treialon Ymchwil (Prifysgol Caerdydd) gyda nawdd gan Brifysgol Caerdydd a Felindre. Mae'n cael ei ariannu gan grant o £2.8M gan gronfa Stand Up to Cancer (SU2C) Ymchwil Cancer y DU.

Nod PATHOS yw ymchwilio a all gostwng dos radiotherapi neu hepgor cemotherapi leihau sgil-ffeithiau hirdymor, heb leihau cyfraddau iachau cleifion â chanser oroffaryngeaidd (gwddf) sy'n gysylltiedig â'r Feirws Papiloma Dynol (HPV) sydd wedi cael llawdriniaeth sy'n creu archoll mor fach â phosibl. Mae methu llyncu'n iawn ar ôl triniaeth cancer y pen a'r gwddf yn sgil-ffaith gyffredin, gydag oddeutu 10% o gleifion angen tiwb bwydo am fisoedd neu flynyddoedd ar ôl triniaeth. Os yw canlyniadau PATHOS yn dangos bod lleihau triniaethau cynorthwyol yn lleihau sgil-ffeithiau tra'n cynnal cyfraddau iachâd uchel, gallai PATHOS newid paradeimau triniaeth byd-eang ar gyfer y clefyd.

Llwyddodd PATHOS i recriwtio 1349 o gleifion o 65 o safleoedd (39 yn y DU, 26 rhyngwladol yn Ffrainc, yr Almaen, yr Unol Daleithiau ac Awstralia) ym mis Hydref 2024, gan ei wneud y treial clinigol ymyrraeth pen a gwddf mwyaf erioed. Disgwylir i'r canlyniadau gael eu hadrodd yn 2028, ynghyd â chanlyniadau is-astudiaethau trosi cysylltiedig.



Grant o £2.8M gan SU2C



Recriwtio yn fyd-eang targed wedi'i gyrraedd



Disgwylir canlyniadau erbyn 2028



CTIS2024-516673-68-00

**ELIPSE****Agorodd cam recriwtio yr astudiaeth fwyaf yn y DU ym maes ymchwil cancer y prostad llawfeddygol**

Dyfarnodd NIHR £2.3 miliwn i dîm treial ELIPSE, o dan arweiniad y llawfeddyg wrolegol ymgynghorol yr Athro Krishna Narahari (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) i gynnal yr ymchwil.

Nod yr astudiaeth yw recriwtio dros 1000 o ddynion o 25 safle ledled y DU sydd â chanser cyfyngedig y prostad. Y nod yw canfod a yw tynnu nodau lymff ochr yn ochr â'r prostad yn gwella canlyniadau clinigol i'r cleifion. Bydd tîm yr astudiaeth hefyd yn asesu pa effaith y gall y llawdriniaeth ychwanegol ei chael ar ansawdd bywyd y cleifion.

Ymrestrodd y cleifion cyntaf yn 2024. Disgwylir y bydd y treial yn cymryd 3 blynedd, a bydd ei ganfyddiadau yn llywio penderfyniadau clinigol gan gyfeirio at ganser y prostad yn dychwelyd, ansawdd bywyd, cyfraddau cymhlethdodau, goroesi a defnyddio adnoddau'r GIG.



Grant o £2.3M gan NIHR



Ar agor i recriwtio



Recriwtio ar hyn o bryd



ISRCTN14434966

**POLARiS****Cynllun peilot dichonoldeb llwyddiannus yn arwain at dreial llawdriniaeth rhyngwladol canser y rhefr**

Yn dilyn cynllun peilot dichonoldeb llwyddiannus a ariannwyd gan Bowel Research UK, mae tîm astudiaeth POLARiS wedi cael £3.7 miliwn yn rhagor gan NIHR a Chyngor Ymchwil Meddygol ac Iechyd Awstralia i ehangu eu gwaith ymchwil. Mae astudiaeth POLARiS, o dan arweiniad llawfeddyg y coluddyn a'r rhefr, yr Athro Julie Cornish (Ysbyty Athrofaol Cymru), wedi'i chynllunio i ymchwilio i sgil-ffeithiau llawdriniaeth canser y rhefr, gan ganolbwyntio ar reolaeth wael ar y coluddyn. Nod y tîm yw ymchwilio i effaith llawdriniaeth ar sut mae'r coluddyn yn gweithio, a chreu llwybr triniaeth a fydd yn lleihau'r sgil-ffeithiau hyn.

Agorodd y cam recriwtio ym mis Medi 2023, gyda tharged i recriwtio cyfanswm o 600 o gleifion ar gyfer yr hap-dreial dan reolaeth a 1,500 o gleifion eraill ar gyfer astudiaeth carfan arsylwadol. Mae cleifion yn cael eu recriwtio o'r DU ac Awstralia.



Grant o £3.7M gan NIHR & AHMRC



Ar agor i recriwtio



Recriwtio ar hyn o bryd



[ISRCTN12834598](#)

**BICCC****Treial clinigol yn ymchwilio i is-dos cyclophosphamide i atal ail-lifoli canser y colon a'r rhefr**

Mae tîm o Gaerdydd, o dan arweiniad yr Athro Andy Godkin (Prifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) wedi derbyn £780k o gyllid gan Ymchwil Canser Cymru i gynnal treial BICCC.<sup>1</sup> Nod BICCC (Ymyrraeth Fer gyda Cyclofosfamid mewn cleifion â Chanser y Colon a'r Rhefr) yw gwerthuso a fydd rhoi dos isel o cyclofosfamid i gleifion dros 18 oed sydd wedi cwblhau llawdriniaeth a / neu gemotherapi yn lleihau eu risg o gael y clefyd eto. Mae'n recriwtio unrhyw glaf sydd wedi cael ei drin ar gyfer cam II-IVA CRC ac yr ystyrir ei fod wedi'i wella. Mae bellach ar agor yn Ysbyty Singleton Abertawe, Ysbyty Felindre ac Ysbyty Athrofaol Cymru Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng Ngogledd Cymru ac mewn wyth canolfan arall ledled y DU a Gogledd Iwerddon.

Mae astudiaethau blaenorol wedi dangos bod dos isel o cyclofosfamid yn cael ei oddef yn dda ac yn paratōi'r system imiwnedd yn effeithiol mewn cleifion â chanser y colon a'r rhefr nad oes gwella arno. Y gobaith yw y bydd y canlyniadau hyn yn cael eu dilysu yn y garfan newydd hon o gleifion yn y lleoliad cynorthwyol, gan sbarduno eu celloedd imiwnedd i ddiaristrio unrhyw gelloedd canser sy'n weddill, a thrwy hynny leihau'r siawns y bydd y canser yn dychwelyd ar ôl triniaeth. Nod y tîm yw recriwtio 500 o gleifion i'r hap-dreial, a fydd yn rhedeg tan 2028.



Grant o £0.78M gan CRW



Ar agor i recriwtio



Recriwtio ar hyn o bryd



[ISRCTN12508004](#)

1. <https://velindre.nhs.wales/news/latest-news/uks-first-patients-for-cardiff-led-biccc-study/>

**SCOPE2**

Mae'r broses recriwtio ar gyfer treial cemotherapi mwyaf byd ym maes canser yr oesoffagws wedi'i chwblhau

Mae treial SCOPE2 gwerth £1.6 miliwn, a ariennir gan Ymchwil Canser y DU, o dan arweiniad y prif ymchwilydd, yr Athro Tom Crosby (Cyfarwyddwr Clinigol Canser Cenedlaethol Cymru, ac oncolegydd ymgynghorol yng Nghanolfan Ganser Felindre) bellach wedi gorffen recriwtio.

Nod yr astudiaeth yw egluro manteision radiotherapi dos uwch, o'i gymharu â dos safonol mewn canser yr oesoffagws na ellir ei drin. Mae'r ymchwilydd hefyd yn gwerthuso cyfuniadau cyffuriau cemotherapiwtig amgen yn yr un garfan o gleifion.

Daeth y cam recriwtio i'r treial SCOPE2 i ben ym mis Ionawr 2024, ar ôl recriwtio mwy na'r nifer targed o ran cyfranogwyr, gan wneud SCOPE2 y treial cemotherapi mwyaf ar gyfer canser yr oesoffagws ledled y byd. Disgwylir canlyniadau yn 2026, gyda chanlyniadau yn gwerthuso effeithiau triniaeth ar oroesiad ac ansawdd bywyd y cyfranogwyr.

Mae tîm yr astudiaeth yn gobeithio defnyddio canlyniadau'r astudiaeth hon yn arwain at dreial mwy, gan asesu'r dosau radiotherapi a chyfuniadau cemotherapi ar garfan fwy o gyfranogwyr.



Grant o £1.6M gan CRUK



Targed recriwtio wedi'i gyrraedd



Disgwylir canlyniadau yn 2026



[ISRCTN97125464](https://www.isrctn.com/record/view?id=N97125464)

**THINKCANCER!**

Dyfarnu cyllid o £1.6m i dreialu ymyrraeth newydd ar gyfer diagnosis cynharach

Yr Athro Clare Wilkinson yw Prif Ymchwilydd treial ThinkCancer!, sy'n hap-dreial rheoledig pragmatig dan reolaeth cam III o ymyrraeth ymddygiadol newydd ar gyfer timau gofal sylfaenol i hyrwyddo diagnosis canser cynharach gyda phroses wedi'i hymgorffori a gwerthusiad economaidd.

Mae'r treial wedi'i ganoli yng Nghanolfan Ymchwil Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru (NWCPCR) ac mae'n cael ei ariannu gan Ymchwil Canser Cymru ac Ymchwil Canser y Gogledd Orllewin gyda dyfarniad o £1.6 miliwn rhwng 2022 a 2027. Mae'r treial yn y cam casglu data ar hyn o bryd ([thinkcancer@bangor.ac.uk](mailto:thinkcancer@bangor.ac.uk)).



Grant o £1.6M gan CRW & Ymchwil Canser y Gogledd Orllewin



Ddim yn recriwtio mwyach




Wrthi'n casglu data



[ISRCTN43757325](https://www.isrctn.com/record/view?id=N43757325)

## Ymchwil canser Cymru yn 2025: Cipolwg yn ôl thema CReSt


Daw'r dadansoddiad cryno hwn o ymchwil canser yng Nghymru o'r 110 o grynodedau a gyflwynwyd yng Nghynhadledd Ymchwil Canser Cymru ym mis Mawrth 2025. Yn absenoldeb set ddata lawn o'r holl waith parhaus, mae hyn yn rhoi syniad o'r diddordeb mewn ymchwil mewn gwahanol leoliadau.



- Thema 1:** Oncoleg fecanistig a manwl
- Thema 2:** Imiwno-oncoleg
- Thema 3:** Radiotherapi
- Thema 4:** Treialon clinigol canser
- Thema 5:** Oncoleg gefnogol a lliniarol
- Thema 6:** Ymchwil atal, canfod cynnar, gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd

## Ymchwil canser Cymru yn 2025: Cipolwg yn ôl math o diwmor

Daw'r dadansoddiad cryno hwn o ymchwil canser yng Nghymru o'r 110 o grynodedau a gyflwynwyd yng Nghynhadledd Ymchwil Canser Cymru ym mis Mawrth 2025. Yn absenoldeb set ddata lawn o'r holl waith parhaus, mae hyn yn rhoi syniad o'r diddordeb mewn ymchwil mewn gwahanol leoliadau.



Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Ganolfan Ymchwil Canser Cymru, ond mae'n cynnwys gwaith nifer o unigolion, grwpiau a sefydliadau ledled Cymru.

Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio ar y penodau nesaf mewn ymchwil cancer yng Nghymru a thu hwnt, gan hyrwyddo nodau CReSt.



Ymchwilwyr o bob cwr o Gymru yng Nghynadledau Ymchwil Canser Cymru 2024 a 2025 WCRC

Diolch hefyd i'n haelodau o grŵp arweinyddiaeth CReSt sy'n cefnogi'r broses o roi CReSt ar waith: Yr Athro Mererid Evans, yr Athro Duncan Baird, Dr Magdalena Meissner, yr Athro Awen Gallimore, yr Athro Alan Parker, Dr James Powell, yr Athro Richard Adams, yr Athro Steve Knapper, yr Athro Simon Noble, yr Athro Sunil Dolwani, yr Athro Katherine Brain, Dr Stephanie Smits, Dr Helen Pearson, Bob McAlister, Jenni Macdougall a Kathryn Spiers-Pritchard